**COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A CHYNLLUNIO CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS FAWRTH, 4$^{YDD}$ HYDREF 2016 AM 6.30 P.M.**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd N. Bastow (Cadeirydd)
Cynghorwyr W. Bagnall, Mrs G. Baker, Mrs L. Edwards, Mrs L. Griffiths, Mrs M. Jones, J. Pearson, Mrs V. Smith Y.H., S. Williams, C. Wood

**SWYDDOGION:** Mrs C. Earley (Clerc y Dref)
Tom Owens (Myfyriwr Ymgynghorol).

**193/16 <u>Ymddiheuriadau am Absenoldeb:</u>**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr, R. Foreman a C. Perry.

**194/16 <u>Datgan Cysylltiadau:</u>**

Atgoffwyd yr aelodau o’r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu rai sy’n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

**195/16 <u>Cofnodion</u>:**

***Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 13$^{eg}$ Medi 2016 a’u llofnodi i fod yn adroddiad cywir.***

**196/16 <u>Materion yn Codi o Gofnodion Blaenorol:</u>**

**a. Cofnod 264/15(a) - Promenâd Rhos:**

Cyflwynodd y Clerc ymateb pellach oddi wrth Mr V. Turner.

***Penderfynwyd ateb Mr Turner gan ddweud y gellir cyflwyno manylion gan ddau dyst a welodd cerbydau yn taro cerddwyr (gyda drychau ystlys) a gofyn yn ffurfiol am delediad TCC yn ystod y gwanwyn nesaf (o fis Mai ymlaen) fel gall Swyddogion y Priffyrdd weld trostynt eu hunain beth yw maint y broblem.***

**(b) Cofnod 148/16 - Cynhadledd Chwarae Cymru:**

Fe nodwyd bydd Gareth Stacey yn barod i ddod i gyfarfod yn y dyfodol i roi adroddiad yn ôl am gynhadledd diweddar Chwarae Cymru.

**(c) Cofnod 146/16(a) - Llochesi Bysus:**

Cyflwynodd y Clerc amcan bris manwl i’w ystyried, am y gwaith a ddynodwyd yn ystod yr archwiliad diweddar o lochesi bysus. Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau byddai Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) yn barod i dalu am unrhyw waith parthed gwybodaeth am amserlenni ac i symud unrhyw flychau trydan nad oedd eu hangen mwyach mewn un neu ddau o lochesi. Bydd angen i weddill costau’r gwaith (£12,538.37) ddod

allan o gyllideb y Cyngor Tref, sydd ar hyn o bryd yn £9,237, ar ol talu am y cysgodfan newydd ger Parc Eirias. Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau bod cyllideb cynnal a chadw llochesi bysus o £5,250 wedi cael ei ddychwelyd i'r Cyngor Tref yn 2014/15, am na wnaed unrhyw beth i symud ymlaen i drefnu'r cytundeb glanhau / cynnal a chadw. Felly, mae angen dal i fynnu gyda'r gwaith o'r blynyddoedd a fu. Cafwyd trafodaeth am gysgodfan hynach (dros 30 mlynedd) ym Mae Colwyn Uchaf, sydd angen gwario oddeutu £2,020 ar y gwaith. Gofynnwyd a fyddai'n fwy cost effeithiol yn yr hirdymor i gael cysgodfan newydd yn ei le.

***Penderfynwyd:***

- **i.** ***Gofyn i'r Cyngor ailddyrannu'r swm o £5,250 a dychwelwyd yn gynharach er mwyn i raglen cynnal a chadw llochesi bysus cael ei ddiweddaru'n llawn.***
- **ii.** ***Yn amodol ar yr uchod, rhoi awdurdod i Gethin symud ymlaen gyda'r holl waith ac eithrio'r cysgodfan y cyfeiriwyd ato yn gynharach ym Mae Colwyn Uchaf (ger Lôn Hafodty).***
- **iii.** ***Gofyn am amcan bris am gysgodfan newydd i gymryd lle'r un presennol ger Lôn Hafodty i'r pwrpas o gymharu prisiau.***

**ch Swyddfa Bost Penmaenrhos:**

Cyflwynodd y Clerc llythyr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cau dros dro a'r hyn sy'n digwydd i geisio cael eiddo arall a fyddai'n addas.

***Penderfynwyd derbyn yr ohebiaeth a'i nodi.***

**197/16 <u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):</u>**

Cyflwynodd y Clerc yr ohebiaeth ganlynol oddi wrth GBSC i'w ystyried:

**a.** Byw yn y Bae: Adroddiad ysgrifenedig gan y Cynghorydd B. Bagnall yn dilyn cyfarfod diweddar y Bwrdd Strategaeth.

**b.** Gwahardd Parcio dros dro: Hysbysiad o gais am waharddiad ar Ffordd Nant y Glyn o 5/10/16.

***Penderfynwyd derbyn a nodi'r ohebiaeth.***

**198/16 <u>Sefydlu Canolfan Telecom:</u>**

Cyflwynodd y Clerc llythyr ymgynghori cyn cyflwyno cais, i'w ystyried, oddi wrth Clarke Telecom parthed y bwriad i sefydlu canolfan ar Ffordd Llanrwst, Bae Colwyn Uchaf. Ni ddatganwyd unrhyw bryderon na gwrthwynebiad.

***Penderfynwyd nodi'r cynlluniau a pheidio â gwneud sylwadau ar hyn o bryd.***

**199/16 <u>Cais i Gyfyngu ar Gyflymdra:</u>**

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried cynnig ar lafar gan y Cynghorydd M. Jones i'r Cyngor Tref wneud cais ffurfiol i'r Adran Briffyrdd ailystyried y cais blaenorol i'r cyfyngiad presennol o 30 m.y.a. ar Ffordd Abergele cael ei

ymestyn cyn belled â Ffordd Highlands, oherwydd y nifer o dai newydd sydd ar y rhan yma o'r ffordd.

***Penderfynwyd argymell bod y Cyngor yn ysgrifennu at yr Adran Briffyrdd i ofyn yn ffurfiol i'r parth 30 m.y.a. cael ei ymestyn ar hyd Ffordd Abergele hyd at ei gyffordd a Ffordd Highlands.***

**200/16 <u>Uned Arfaethedig ar gyfer Gofal Dwys i'r Newydd Ganedig:</u>**

Cyflwynodd y Clerc diweddariad oddi wrth Darren Millar AC er gwybodaeth.

**201/16 <u>Adolygiad o Etholaethau Seneddol:</u>**

Cyflwynodd y Clerc hysbysiad o'r cynigion dechreuol parthed yr adolygiad o etholaethau seneddol, i'w ystyried.

***Penderfynwyd argymell bod y cynigion yn cael eu derbyn a'u nodi.***

**202/16 <u>Cymorth Cynllunio Cymru - Digwyddiad Rhwydweithio gyda'r Gymuned:</u>**

**a.** Rhoddodd y Clerc a'r Cynghorydd G. Baker adroddiad ar lafar yn dilyn y gweithdy hanner diwrnod a fynychwyd ganddynt yn ddiweddar.

Fe nodwyd bod nifer o drefi yng Nghymru wedi mabwysiadu cynlluniau trefol erbyn hyn (fe'u gelwir hwy rŵan yn Gynlluniau Lleoedd) ac maent yn cael eu defnyddio fel Astudiaethau Achos er mwyn annog eraill. Bu cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru yn bresennol ac fe drafodwyd rhai o'r heriau o fabwysiadu cynlluniau i fod yn Ganllawiau Cynllunio Ychwanegol (fel eu bod yn gyfartal ag LDP). Fe nodwyd, os oedd y cynlluniau i fod yn ystyrlon ac yn gymorth wrth baratoi datblygiadau yn y dyfodol a blaenoriaethu'r defnydd o arian a godwyd ar gyfer isadeiledd i'r gymuned, bod angen i bawb sydd â diddordeb fod yn rhan o'r weithdrefn, yn cynnwys cynghorau tref a chymuned, awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr. Roedd Llywodraeth Cymru wedi dileu sail statudol y cynlluniau lleoedd o'r Mesur Cynllunio diweddar ac nid oeddent wedi cyhoeddi unrhyw arweiniad ar sut i'w paratoi a beth ddylent fod yn cael ei gynnwys. Fe nodwyd bydd costau Cynlluniau Lleoedd yr Wyddgrug yn uwch na'r £40,000 am ffioedd ymgynghorwyr erbyn iddo gael ei fabwysiadu. Crëwyd un y Trallwng 'yn fewnol' am gost oedd yn llawer iawn yn llai, ond mae gan y Cyngor llawer mwy o adnoddau staff ac mae'r Clerc yn cyn tirfesurydd / Cynlluniwr Tref. Fe nodwyd ymhellach bod CBSC wedi cyflwyno manylion i Lywodraeth Cymru am y meddalwedd a ddatblygwyd i gynorthwyo gyda'r ymglymiad efo'r gymuned parthed Cynllun Lleoedd Abergele ac roedd yna bosibilrwydd y gellir ei ddefnyddio ledled Conwy a / neu Gymru.

***Penderfynwyd nodi'r adroddiad a disgwyl am fwy o arweiniad oddi wrth Swyddog Cynllunio Strategaeth CBSC ac / neu Lywodraeth Cymru.***

**b.** Cyflwynodd y Clerc copïau o nifer o erthyglau diweddar ar weithdrefn cynlluniau cymdogaethol yn Lloegr, er gwybodaeth.

**203/16 Pier Victoria Colwyn:**

Rhoddodd y Clerc adroddiad byr ar lafar, yn dilyn y cyfarfod diweddar rhwng cynrychiolwyr o Ymddiriedolwyr Pier Victoria Colwyn, y Cyngor Tref a Bwrdd Pier CBSC. Fe nodwyd mai prif benderfyniadau'r cyfarfod bu:

**a.** Bydd CBSC yn cyflwyno cais cyn diwedd y flwyddyn i ddymchwel darn sylweddol o'r Pier, gyda chynigion i gadw / trwsio rhan fer o'r llawr gerdded hyd at adeilad presennol y 1970au (fydd yn cael ei ddymchwel), ynghyd a'r polion i ddangos pellter yr hen Pier.

**b.** Bod CBSC wedi cytuno erbyn hyn, i'r Comisiwn Brenhinol cael mynediad i'r Pier er mwyn iddynt gael gwneud archwiliad mesuradwy o'r holl rannau, ar yr amod y byddant yn cadw at brotocol mynediad ei hun.

**c** Bydd CBSC yn cyflwyno llythyr i'r Ymddiriedolwyr i geisio egluro'r dull 'dau gam'. Oherwydd mae ymdrechion parhaol CBSC i geisio caniatâd i ddymchwel y Pier yn sylweddol wedi gwneud pethau'n anodd i'r Ymddiriedolaeth i gael unrhyw gyllid grant i symud ymlaen gyda'i chynlluniau datblygu eu hunain.
Gofynnwyd pwy fydd yn talu am y dymchwel a'r llawr gerdded byr ac fe nodwyd bydd yr holl gostau yn cael eu talu gan y trethdalwyr lleol.

***Penderfynwyd nodi'r adroddiad ac i ddisgwyl am ddatblygiadau pellach.***

**ch. Gohebiaeth Arall:**

Fe nodwyd bod yr eitemau canlynol o ohebiaeth ar gael gan y Clerc ar gais:

i. Cofnodion cyfarfod Cymdeithas Trigolion Hen Golwyn (y Dwyrain) a gynhaliwyd ar 14.9.16
ii. Taflen Newyddion BID Colwyn - Medi 2016

**204/16 Cynllunio:**

a. Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd oddi wrth GBS Conwy.

***Penderfynwyd cyflwyno sylwadau ar y ceisiadau hyn fel y maent yn ymddangos yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn.***

b. ***Penderfynwyd derbyn copi o'r Penderfyniadau Cynllunio a wnaed gan GBSC.***
c. ***Penderfynwyd derbyn hysbysiad o Apêl parthed cais O/42812***
ch ***Penderfynwyd derbyn a nodi ymgynghoriad SPG ar Gynllun Rheoli Ardal Cadwraeth Bae Colwyn.***

**205/16 Trwyddedau:**

***Penderfynwyd derbyn rhybudd am nifer o geisiadau diweddar am drwyddedau yn ardal Bae Colwyn.***

Daeth y Cyfarfod i ben am 7.40 pm ……………………… Cadeirydd

**MINUTES OF A MEETING OF THE GENERAL PURPOSE AND PLANNING COMMITTEE OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD AT 6.30PM ON TUESDAY 4TH OCTOBER 2016, IN THE COMMITTEE ROOM, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY**

**PRESENT:** Cllr N Bastow, Chairman
Cllrs W Bagnall, Mrs G Baker, Mrs L Edwards, Mrs L Griffiths, Mrs M Jones, J Pearson, Mrs V Smith JP, S Williams, C Wood

**OFFICER:** Mrs C Earley, Town Clerk
Mr T Owens, Student Advisor

**193/16 Apologies for Absence:**

Apologies for absence were received from Cllrs R Foreman and C Perry.

**194/16 Declarations of Interest:**

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. None were declared.

**195/16 Minutes:**

***Resolved to approve and sign as a correct record the minutes of the last meeting, held on 13th September 2016.***

**196/16 Matters Arising from Previous Minutes:**

**a. Min. 264/15(a) – Rhos Promenade:**

The Clerk submitted a further response from Mr V Turner.

***Resolved to write back to Mr Turner to state that details can be provided of two witnesses that have been in vehicles which have hit pedestrians (with wing mirrors) and to formally request temporary mobile CCTV coverage next Spring (May onwards) so that Highways Officers can see for themselves the extent of the problem.***

**b. Min. 148/16 – Play Wales Conference:**

It was noted that Gareth Stacey would be happy to attend a future meeting to report back on the recent Play Wales conference.

**c. Min. 146/16(a) – Bus Shelters:**

The Clerk submitted, for consideration, a detailed quotation for the works identified during the recent survey of shelters. The Clerk informed Members that CCBC would pay for any works involving the timetabling information and for the removal of the redundant electrical boxes at a

couple of bus shelters. The rest of the works (£12,538.37) would need to come from the Town Council's budget, which currently stands at around £9,237, after payment for the new shelter at Eirias Park. The Clerk informed members that the bus shelter maintenance budget of £5,250 had been returned to the Town Council in 2014/15, as no progress had been made that year in arranging for a cleaning/maintenance contract. There is therefore a need to catch-up now with works from previous years. A discussion also took place regarding an older (30yrs+) shelter in Upper Colwyn Bay, which requires approximately £2,020 of works. It was queried whether it may be more cost effective in the longer term to look at replacing this shelter.

***Resolved:***

i. ***To request that the Council re-allocates the £5,250 returned to it previously to enable the bus shelter maintenance to be brought fully up to date.***

ii. ***Subject to the above, to instruct Gethin to proceed with all works, except to the aforementioned shelter in Upper Colwyn Bay (nr. Hafodty Lane).***

iii. ***To request a quotation, for comparison purposes, for the replacement of the shelter nr. Hafodty Lane.***

**d. Penmaenrhos Post Office:**

The Clerk submitted a letter giving an update on the temporary closure and the on-going search for other suitable premises.

***Resolved to receive and note the correspondence.***

**197/16 Conwy CBC:**

The Clerk submitted, for consideration, the following correspondence from CCBC:

**a.** Bay Life: A written report from Cllr B Bagnall following the recent Strategic Board meeting.

**b.** Temporary Parking Prohibition: Notice of a request for a restriction on Nant y Glyn Road from 5/10/16.

***Resolved to receive and note the correspondence.***

**198/16 Telecoms Base Station Installation:**

The Clerk submitted, for consideration, a pre-application consultation letter from Clarke Telecom in respect of a proposed base station installation on Llanrwst Road, Upper Colwyn Bay. No concerns or objections were expressed.

***Resolved to note the proposals and submit no comments at this stage.***

**199/16 Request for Speed Limit Restriction:**

Members were asked to consider a verbal proposal from Cllr M Jones for the Town Council to formally request that Highways reconsider a previous request that the current 30mph restriction on Abergele Road to be extended as far as Highlands Road, due to the increase in dwellings along that stretch of road.

***Resolved to recommend that the Council writes to Highways to formally request that the 30mph zone be extended up Abergele Road to its junction with Highlands Road.***

**200/16 Proposed Neonatal Intensive Care Unit:**

The Clerk submitted, for information, an update from Darren Millar AM.

**201/16 Parliamentary Constituency Review:**

The Clerk submitted, for consideration, notice of the initial proposals in respect of the parliamentary constituency review.

***Resolved to recommend that the proposals be received and noted.***

**202/16 Planning Aid Wales Community Engagement Network Event:**

a. The Clerk and Cllr G Baker gave a verbal report following their attendance at a recent half day workshop event.

It was noted that several towns in Wales had now adopted town plans (now being referred to as Place Plans) and these were being used as Case Studies to help encourage others. A representative from the Welsh Government had been present and some of the challenges around getting plans adopted as Supplementary Planning Guidance (so that they carry weight alongside the LDP) were discussed. It was noted that all interested parties needed to be involved in the process, including the town/community council, local planning authority and developers, for the plans to be meaningful and assist in informing future development and prioritising use of community infrastructure levy monies. The Welsh Government had removed the statutory footing of place plans from the recent Planning Bill and had not issued any guidance on how they should be prepared and what they should include. It was noted that Mold's Town Plan will have cost in excess of £40,000 in consultancy fees by the time it is adopted. Welshpool's had been created 'in house' for a much lesser cost, but the Council has much greater staffing resources and an ex Surveyor / Town Planner as a Clerk. It was further noted that CCBC had submitted details to the Welsh Government of the software that had been developed to assist with the community engagement for the Abergele Place Plan and that this could potentially be rolled out for use across Conwy and/or Wales.

***Resolved to note the report and await further guidance from the CCBC***

***Strategic Planning Officer and/or the Welsh Government.***

b. The Clerk submitted, for information, copies of several recent articles on the neighbourhood planning process in England.

**203/16 Colwyn Victoria Pier:**

The Clerk gave a brief verbal report, following a recent meeting between representatives from CVPT, the Town Council and the CCBC Pier Board. It was noted that the main outcomes of the meeting had been:

**a.** That CCBC would be submitting an application before the end of the year for the substantial demolition of the Pier, with proposals to retain/repair a short length of boardwalk to the extent of the existing 1970's building (which would be removed), together with the stanchions to demonstrate the extent of the former Pier.

**b.** That CCBC has now agreed for the Royal Commission to have access to the Pier to carry out a detailed measured survey of all its components,, providing that its access protocol is adhered to.

c. That CCBC will provide a letter to the Trust to aim to clarify the 'twin-track' approach, as the continuing efforts by CCBC to seek permission to substantially demolish the Pier have made it difficult for the Trust to obtain any grant funding to progress its own redevelopment proposals.
It was queried who would pay for the demolition and shortened boardwalk and it was noted that this expenses would fall entirely on local taxpayers.

***Resolved to note the report and await further developments.***

**d. Other Correspondence:**

It was noted that the following item(s) of correspondence are available on request from the Clerk:

i. Minutes of the OC(E)RA meeting, held on 14.9.16.
ii. Colwyn BID Newsletter – Sept 2016

**204/16 Planning:**

**a.** Members considered the planning applications received from CCBC.

***Resolved to submit observations on these applications, as detailed in Schedule A attached.***

**b.** ***Resolved to receive a copy of the Planning Decisions issued by CCBC.***

**c.** ***Resolved to receive notice of an Appeal in respect of application 0/42812***

d. ***Resolved to receive and note a consultation on Colwyn Bay Conservation Area Management Plan SPG.***

**205/16 Licensing:**

Resolved to receive notice of several recent licensing applications in the Bay of Colwyn area.

The Meeting Closed at 7.40 p.m.

……………………… Chairman